**CYNGOR CYMUNED YSTRAD FFLUR**
**CYFARFOD MISOL**
**17.11.2022 @7.00pm**
**LLYFRGELL NEUADD PANTYFEDWEN, PONTRHYDFENDIGAID**

1. **CROESO'R CADEIRYDD A MATERION PERSONOL**
   Croesawodd y Cadeirydd y Gyngh. Angharad Jones, bawb i'r Cyfarfod.
   Datganwyd llongyfarchion i'r Cyngh. Ieuan Davies ar dderbyn y Wisg Werdd, yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Tregaron 2022.

2. **YN BRESENNOL**
   Cyngh. Roland Bago (RB); Cyngh. Ieuan Davies (ID); Cyngh. Alun Price Jones(APJ); Cyngh. Angharad Jones (AJ); Cyngh. Richard Jones(RJ) ; Cyngh. Mel Briant (MB); Cyngh Gareth Owen (GO); Cyngh Elgan Williams (EW).
   Cynghorydd Sirol Ifan Lloyd Davies (ILD).
   Eleri Thomas (Clerc) (ET).
   Swyddog Cymorth Cymuedol yr Heddlu John Evans.

3. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**
   Ymddiheurodd y Cyngh. Non Jones a'r Cyngh.Doug Rowbotham am eu hanallu i fynychu'r cyfarfod.

4. **MATERION YN YMWNEUD Â'R HEDDLU**
   Diweddarodd Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu aelodau am ddigwyddiadau o fewn yr ardal.

   **4.1** **Prynu eitem ar y rhyngrwyd.** Roedd y person wedi talu am yr eitem wedi'i difrodi pan gyrhaeddodd.
   Derbyniwyd ad-daliad.
   **4.2** **Aflonyddwch:** Gwnaed sylwadau anffafriol ar gyfrif Facebook.
   **4.3** **Twyll:** Weddol dawel. Mae twyllwyr yn taclo gwahanol ardaloedd mewn continwwm.
   **4.4** **Datganwyd consyrn parthed parcio cerbydau ar y troad**, y tu allan i Neuadd Pantyfedwen. Gellir o bosibl, ymestyn y llinellau melyn i gynnwys y troad.
   **4.5** **Bydd cyfyngiadau cyflymder**, o fewn y Pentref yn gostwng o 30mya i 20mya yn unol â Chanllawiau Llywodraeth Cymru.
   **4.6** **Cyffordd: Ffair Rhos**: bydd yn rhan o'r Adolygiad Terfyn Cyflymder.

5. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL A BUDDIANT SY'N RHAGFARNU**
   **Datganodd y Cyng. Roland Bago** ddiddordeb personol pan ystyriwyd y Cais Cynllunio A220803 ac ymadawodd â'r ystafell.

6. **CADARNHAU COFNODION CYFARFOD 20fed HYDREF 2022**
   **CYNIGIWYD** (Y Cyngh. Richard Jones), **EILIWYD** (Y Cyngh. Elgan Williams ) a **PHENDERFYNWYD** bod Cofnodion Cyfarfod yr 20fed o Hydref 2022, yn gywir ac f'eu harwyddwyd gan y Cadeirydd.

7. **MATERION YN CODI**
   **7.1** **DYDD SUL Y COFIO 13.11.2022, ger y Gofgolofn, Pontrhydfendigaid @10.50am**
   Adroddwyd bod y digwyddiad wedi bod yn deyrnged priodol i'r rhai a oedd wedi gwneud yr aberth eithaf yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf, yr Ail Ryfel Byd ac mewn gwrthdaro milwrol ers y cyfnod hwnnw i gynnwys yr Wcráin.

Mynychodd 108 o bobl y digwyddiad.
**Cytunwyd i ddiolch:**
Parch. Aled Lewis a Pharch Elizabeth Arnold Lewis.
John Jenkins, Biwglwr.
Cyn-Gynghorydd John Jones am ddarllen y Gair yn Gymraeg.
Disgyblion yr Ysgol Sul o dan arweiniad Mrs Neli Jones.
Rheoli Traffig: Sion Conolley a Mike Lewis.
Teimlwyd bod y drafnidiaeth wedi'i hatal am ormod o amser h.y. dros gyfnod y gwasanaeth.
Roedd Mr Charles Arch wedi gosod y blethdorch.
GO wedi archebu'r blethdorch.
Darllen y Gair yn Saesneg: Cadeirydd Cyngor Sir Ceredigion Ifan Davies & gosod y blethdorch ar ran Cyngor Sir Ceredigion.
Gweddiau: Parch. Aled Lewis a Pharch Elizabeth Arnold Lewis
Galw enwau'r rhai a wnaeth yr aberth eithaf: RJ & NJ
Anogaeth: DR & GO
Cyhoeddusrwydd i'r Digwyddiad: Clerc; ID

**7.2 AROLWG ROSPA Ardal Chwarae Pantyfedwen 2022:**
Bydd gwaith o dacluso'r parc yn gyffredinol a phaentio nodweddion yn cael ei ymgymryd gan weithgor. Mae angen tocio canghennau coed. Cytunwyd i ddarganfod pwy sy'n yswirio y ffin rhwnc y parc a'r cae pêl droed - Pwyllgor y Neuadd neu'r Cyngor Cymuned. Hefyd i arddangos arwydd Pentir Pumlumon yn y cyffiniau: **I ofyn caniatâd Pwyllgor y Neuadd.**

**7.3 Diffibriliwr o fewn y Pentref:** Gohebiaeth oddi wrth Pauline Bett, Ymatebwr Cyntaf Cymunedol WAST yn sôn ei bod wedi cysylltu â Clare Hughes a Ceredig, Siop Bentref y Bont sydd wedi cytuno i ymwneud â'r swydd o Warchediaeth Diffibriliwr y Pentref ar gyfer Neuadd Pantyfedwen a'r Siop.

**Cytunwyd i brynu diffibriliwr ar gyfer Ffair Rhos, mewn cyfarfod cynt.** Mae'r ddwy landledi Teifi Inn wedi caniatau lleoli'r diffibriliwr ger y Teifi Inn.
Diffibriliwr Calan Hearts
**Diffibriliwr Mindray C1A , £1045.00** ond wrth ystyried y cyfraniad o £200, y cyfraniad isafwm ar gyfer y diffibriliwr yn unig oedd £845.00 + £8 Post & Chludiant. Mae siec wedi'i gyflwyno iddynt a mae'r diffibriliwr wedi cyrraedd.
**Roedd y Cyng Elgan Williams a'r Cyng Ieuan Davies wedi rhoi'r blwch yn ei le a byddant nawr yn gosod y diffibriliwr yn Ffair Rhos.**

**Gohebiaeth gan Gwenllian Beynon (GB)** ar ran Marchnad Nadolig Bont parthed diffibriliwr a brynwyd ar gyfer Ystrad Fflur sawl blwyddyn yn ôl (Nod Marchnad Nadolig Bont oedd cyfrannu elw'r Farchnad i elusennau ac yn ystod yr adeg cyn COVID roedd trefnwyr o'r farn bod lleoli diffibriliwr yn Ystrad Fflur yn flaenoriaeth oherwydd prysurdeb yr ardal). Cyn belled, nid yw'r diffibriliwr wedi'i osod mewn lle ac wedi ei storio yn siop fach Ystrad Fflur ers bron i 3 blynedd. Cysylltodd y trefnwyr â Cadw; mae'r sefyllfa yn siop fach Ystrad Fflur wedi newid erbyn hyn. Nodwyd bod y diffibriliwr wedi ei brynu heb y bocs. Roedd CADW yn barod i gyfrannu bocs.
**Roedd 2 opsiwn bellach yn codi:**
**1. Bod y diffibriliwr yn ei ddychwelyd i feddiant Marchnad Nadolig Y Bont**
**2. Cadw yn gosod y diffibriliwr yn ei le ond nid yn ei gynnal (mae'r opsiwn eto i'w drafod â'r partïon perthnasol)**

Gofynnodd GB am gyngor y Cyngor Cymuned. Gan nad oedd Marchnad Nadolig Bont yn Sefydliad cofrestredig, gallai problemau godi pe bai'r diffibriliwr yn dychwelyd i'w gofal.
Gofynnwyd tybed a allai'r Cyngor Cymuned drafod y sefyllfa ac o bosib cymryd cyfrifoldeb am y diffibriliwr. Roedd lleoli diffibriliwr yn Ystrad Fflur yn hollbwysig wrth ystyried y nifer o bobl sy’n ymweld â'r safle.
Cytunwyd i gymryd cyfrifoldeb am y diffibriliwr. Bydd y Cyng Ifan Davies yn cysylltu â Phwyllgor Ystrad Fflur er mwyn sefydlu'r ffordd ymlaen: bydd yn mynychu cyfarfod ar y 24/11/2022.

Nododd y Cyng Ieuan Davies fod y GIG yn darparu hyfforddiant diffibrilwyr am ddim. Cytunodd Cyng Davies i ymchwilio ymhellach ac i gynnig cyfle i'r cyhoedd fynychu'r sesiynau hyfforddi. Y gobaith oedd y gellid trefnu'r sesiynau hyfforddi ar gyfer Rhagfyr 2022.

**7.4** **Llifogydd yn ardal yr Afon Teifi ger y Red Lion**: Cynhaliwyd cyfarfod safle ar Ddydd Gwener 11eg Tachwedd 2022 am 11am gyda chynrychiolydd Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), Mr Nicholas Thompson. Mynychodd y Cyngh. Richard Jones y cyfarfod.
Nid oedd y falf fflap a ddangoswyd yn eiddo CNC nac yn cael ei chynnal a'i chadw gan CNC, nodwyd bod yr awdurdod lleol wedi jetio a glanhau'r pibellau, felly mae'n debygol mai nhw oedd yr awdurdod cyfrifol am ei pherchenogaeth a'i gwaith cynnal a chadw.
Mynegwyd pryder mewn perthynas â'r ffaith bod y falf wedi'i chlymu'n agored. Trwy ei chadw ar agor, roedd y system yn gorweithio cyn gynted ag y cododd lefelau'r afon, ac achosi'r llifogydd ar y B4340.

Soniwyd bod y falf fflap wedi'i newid o fetel i blastig nifer o flynyddoedd yn ôl. Roedd llifogydd yn gymharol ddiweddar hefyd, yn yr 20 mlynedd ddiwethaf.

Wrth edrych yn ôl ar yr ymweliad safle holwyd a oedd y ddau bwynt hyn yn achos ac effaith?
Gall aliniad y falf fflap i lif yr afon achosi iddi agor wrth i gyflymder y nant ei dal, gan ganiatáu i ddŵr garlamu ar y system ac o ganlyniad achosi'r llifogydd ar y B4340 ac yng ngwaelod y Llew Coch. Pe bai'r fflap gynt o haearn, byddai wedi bod yn drymach ac yn anoddach i lif yr afon godi'r falf fflap?

Ar ôl trafod ar y safle'r cynnig i ddatblygu glan yr afon i ddiogelu'r fflap rhag llif nant, gofynnodd cynrychiolydd CNC tybed a allai dychwelyd i ddefnyddio falf haearn fod yn fwy priodol?

Cyfarwyddwyd y Cyngor Cymuned at y person anghywir yn CNC i drafod y cynnig gwaith i ddatblygu'r banc a gosod peirianneg caled yn y Teifi, Rachel Thomas (DFRSouthPermitting@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk) oedd arweinydd tîm Datblygu a Pherygl Llifogydd; **CYTUNWYD i ofyn am gyfarfod safle.**

Dolenni o ddefnydd: :
[A guide to your rights and responsibilities of riverside ownership in Wales (naturalresources.wales)]
[Natural Resources Wales / Flood risk activity permits]
[Natural Resources Wales / Environmental permits for flood risk activities]

**7.5** **Glan-yr-Afon: Roedd canclwm Japan yn broblem yn yr ardal hon.** Cytunwyd i ddarganfod a fyddai cyllid grant yn talu'r gost o drin y Canclwm Japan. (Llywodraeth Cymru a Chronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol - Bydd cynllun grant Lleoedd Lleol ar gyfer Natur ar agor unwaith eto ar gyfer ceisiadau o ddydd Iau 9 Mehefin 2022 ymlaen. Mae £920k ar gael i'w ddyrannu tan fis Mawrth 2023. Ewch i www.heritagefund.org.uk/funding am ragor o fanylion - rcarter@onevoicewales.wales Cronfa Rhwydweithiau Natur (rownd 2) / National Lottery Heritage Fund)
Cytunwyd i ddirprwyaeth y Cyngor Cymuned gyfarfod i drafod arian grant ar gyfer prosiectau penodol.

**7.6** **Cyfleusterau Cyhoeddus:** holodd gohebiaeth cynt gan Mrs Mair Jones tybed a fyddai modd gosod Cyfleusterau Cyhoeddus yn y Pentref. Eglurwyd bod grant o £500 wedi'i glustnodi gan Gyngor Sir Ceredigion yn y gorffennol. Cytunwyd i ymchwilio ymhellach a gofyn i'r Llew Coch a'r Capel os oedd diddordeb ganddynt i ddarparu cyfleusterau cyhoeddus pe bai grant ar gynnig. *Disgwylir ateb gan Gyngor Sir Ceredigion.*

**7.7** **Pwyllgor y Neuadd:** yn gofyn tybed a fyddai'n bosibl i gynrychiolydd ychwanegol i'r Gyngh. Mel Briant, fynychu gyfarfodydd Pwyllgor y Neuadd.

## 8. GOHEBIAETH

**8.1** **Pentir Pumlumon: Lansio *Canllaw ar gyfer yr Ardal,*** newydd yn Y Beudy, Ystrad Fflur. 8.12.2022 6-8pm. Cyfle i ddysgu mwy am weithgareddau Ymddiriedolaeth Ystrad Fflur ac ymweld â'u harddangosfa barhaol. Mae'r digwyddiad hwn yn agored i unrhyw un sy'n gysylltiedig â thwristiaeth, lletygarwch a chelf a chrefft yn Ucheldiroedd Ceredigion.

**8.2** **Un Llais Cymru:** yn chwilio am gynghorau sydd yn berchen ar neu'n rheoli lleoedd fel arosfannau bysiau a thai bach cyhoeddus neu unrhyw le lle y mae cyfnewidfa drafnidiaeth. Mae gan Cadwch Gymru'n daclus nifer fach o becynnau dechreuwyr. Angen ceisiadau yn y 7-10 diwrnod nesaf. Cytunwyd i glustnodi sylw pellach i'r mater.

**8.3** **Elusen Ambiwlans Awyr Cymru:** gwahoddiad i sesiwn ymgysylltu yn y rhanbarth lle gellir dysgu mwy am y strategaeth pum mlynedd, gan gynnwys cynlluniau i ddatblygu'r gwasanaeth.

**8.4** **Taith Dyffryn Teifi:** Mynychodd Mr Jim Cowie gyfarfod y Cyngor Cymuned yn ystod Ebrill 2022 i wneud cyflwyniad parthed Taith Dyffryn Teifi. Ni fu'n bosib defnyddio'r Fideo, i'w ymgorffori o fewn y Cyflwyniad, bryd hynny. Lluniodd Gymdeithas Dyffryn Teifi daflen er mwyn esbonio a hyrwyddo ei nodau a'i hamcanion.
O fewn y daflen gwahoddir ymatebion a sylwadau a gwerthfawrogir negeseuon o gefnogaeth.
Gofynnodd Mr Cowie, tybed a allai fynychu cyfarfod dyfodol y Cyngor Cymuned i gynnig eglurhad pellach ac i ddangos cynnwys y fideo, a drefnwyd ar gyfer mis Ebrill diwethaf. ***i drafod y cais yn y cyfarfod fis Ionawr.***

**8.5** **Llywodraeth Cymru: Datganiad Ysgrifenedig:** Y Dreth Gyngor: Ymgynghoriad ar Reoliadau drafft i estyn eithriadau premiymau ail gartrefi ac ar Ganllawiau

.

Ymgynghoriad technegol ar fersiwn ddrafft o Reoliadau'r Dreth Gyngor
(Eithriadau rhag Symiau Uwch) (Cymru)
(Diwygio) 2023.

8.6 **Dadorchuddio plac o gyn-ddisgyblion a wnaeth yr aberth eithaf** yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ac Ail a gwrthdaro Milwrol ers hynny: Ysgol Henry Richard, Tregaron. 11.11.2022 @ 10.30am, Estynwyd gwahoddiad i Gadeirydd y Cyngor Cymuned.

8.7 **Gohebiaeth pellach: er gwybodaeth yn unig.**

**9. CYLLID**

**9.1 Llofnodi Sieciau: rhai ag awdurdod ar hyn o bryd:** 2/3 Clare Hughes, Non Jones, Doug Rowbotham. Cytunwyd i dynnu enw Clare Hughes i ffwrdd ac i ychwanegu Gareth Owen.
***I gysylltu â Banc Barclays.***

**9.2 Cyflog y clerc:** £193.83.

**9.3 Costau'r Clerc** £36.11

**9.4 Plethdorch**: Lleng Brydeinig: £25

**10. MATERION CYNLLUNIO**

**10.1: Cais Cynllunio:** A220803**; Ymgeisydd:** Roland Bago;
**Y Bwriad:** Cyflwyno cwrb disgynedig ar gyfer mynediad i gerbydau ar yr ochr flaenllaw i'r tŷ.
**Lleoliad:** Bro Hedd, 2 Heol y Bannau, Ponthrydfendigiad, Ystrad Meurig, SY25 6AZ
**Sylwadau'r Cyngor Cymuned: Dim Gwrthwynebiad.**

**10.2 Cais Cynllunio: A220779**
**Ymgeisydd:** I Wyatt Dŵr Cymru Welsh Water
**Lleoliad:** i'r gogledd o Gronfa Ddŵr Llyn Egnant ar gyffordd ffordd fân Byllau Teifi ar gyfeirnod grid SN79 468
**Y Bwriad:** Datblygiad arfaethedig i gyfansoddyn dros dro i hwyluso gwaith angenrheidiol Cronfa Ddŵr Llyn Egnant
**Sylwadau'r Cyngor Cymuned: Dim Gwrthwynebiad.**

**11. UFA**

**11.1 Cytunwyd i anfon llythyr o** ddiolch at Ysgol Bont am ddarparu arwyddion/peintiadau ar gyfer y Pentref i baratoi i'r Eisteddfod Genedlaethol 2022 yn Nhregaron. Bydd rhaid dychwelyd yr arwyddion i'r Ysgol. Dirprwyaeth o'r Cyngor Cymuned i drefnu.

**11.2 Bydd Coeden Nadolig y Pentref** yn cael ei rhoi i fyny erbyn ddydd Gwener 25 Tachwedd 2022.

**11.3 Mae'r draen gerllaw Llidiart y Ffair,** Ffair Rhos yn dal yn broblem.

**11.4 Pyllau dŵr** yn amlwg ger Cwm Meurig. I adrodd at sylw Cyngor Sir Ceredigion.

**Daeth y cyfarfod i ben am 8.30pm.**

**12. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF: Cyfarfod misol a chyfarfod y Gyllideb.**
**Nos Iau 19eg Ionawr 2023 @7pm**

========================================== (Arwyddwyd/ Dyddiad)